**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD AM 7:30 Y.H. NOS FAWRTH, 15 O FAI 2018 YN YSGOL GYNRADD CWM Y GLO.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Haf Williams (Cadeirydd), Hefin Jones, Goronwy Hughes, Clifford Williams, Meirwen Lloyd, Llywelyn Williams, Rhys Parry, Phil Roberts, Beca Brown.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Alan Pritchard, Richard Robinson, Avril Jones, Martin Jones, Cemlyn Jones.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd)

**CLERC:** Meirion Jones

**174. Croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i'r cyfarfod gan y Cadeirydd

**175. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**176. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgelu fel yn briodol

**177. Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Ebrill 2018**

Cadarnhawyd cofnodion mis Ebrill ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**178. I groesawu Mrs Ellen Williams, Pennaeth Ysgol Brynrefail i'r cyfarfod ac i drafod ffordd ymlaen i gyd-weithio gyda'r Ysgol.**

Croesawyd Mrs Elen Williams, i'r cyfarfod a cafodd yr aelodau wrando ar ei dymuniad i gydweithio gyda'r Cyngor er lles y gymuned. Ar ddiwedd y cyflwyniad cafodd yr aelodau gyfle i holi Mrs Williams ar nifer o bwyntiau neu ddigwyddiadau roedd yn achosi pryder.

Ar ddiwedd y cyflwyniad, diolchwyd i Mrs Williams am ddod i'r cyfarfod a mawr obeithir gall yr ysgol a'r cyngor adeiladu ar eu perthynas drwy gydweithio ar gyfer lles y gymuned.

**179. I drafod unrhyw faterion sydd yn codi o'r cofnodion.**

Fe wnaethpwyd ambell i sylwadau ar faterion yn codi o'r cofnodion.

**180. I dderbyn sylwadau ar faterion y Fynwent.**

Nodwyd gan y Clerc, ei fod wedi cyfarfod a person yn y Fynwent i bwrpas rhoi pris am adeiladu'r wal gerrig ben pella'r fynwent fel rhan o'r broses i baratoi am ehangu'r fynwent ar gyfer y dyfodol. Yn dilyn trafodaeth, awgrymwyd na ddylai'r wal yma gael ei adeiladu dim ond trwsio'r bwlch presennol mewn wal yn y fynwent. Byddai hyn lawer iawn rhatach. Adroddwyd ymhellach fod Pwyllgor y Fynwent wedi cyfarfod i drafod hyn ar y safle, ac yn unfrydol yn eu penderfyniad mai nad oedd angen codi'r wal yma bellach. Adroddwyd hefyd fod gwaith o dacluso'r cwt wrth y fynedfa i'r fynwent yn mynd i'w gael ei wneud yn y dyfodol agos.

Adroddwyd fod y gwaith o roi twrff wrth ymyl un o'r beddi wedi ei wneud.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**181. I dderbyn sylwadau ar faterion Llwybrau cyhoeddus**

**Adroddwyd sylwadau gan y Swyddog Llwybrau, Cyngor Gwynedd**

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth a parhau i gysylltu ag ef parthed llwybr Carreg fran, Cwm y Glo i gael diweddariad

**182. I dderbyn sylwadau ar faterion meysydd chwarae**

**Adroddwyd ar gyfarfod rhwng y Clerc, Y Cynghorydd Berwyn Jones, a Swyddog o Gyngor Gwynedd parthed creu llefydd parcio yn rhan o'r cae chwarae. Dosbarthwyd nifer o syniadau i'r aelodau ystyried.**

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a cynnal archwiliad o'r safle yn y dyfodol agos.

**183. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug.**

Adroddodd Y Cynghorydd Llewelyn Williams, nad oedd cyfarfod o'r Llywodraethwyr wedi bod ers cyfarfod diwethaf o'r Cyngor Cymuned

**184. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Cwm y Glo.**

Nid oedd cynrychiolydd y Cyngor ar Fwrdd Llywodraethwyr yr Ysgol yn bresennol.

**185. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

**Cynllunio**

Yn dilyn gwaith a wnaethpwyd gan Weithgor o'r Pwyllgor Craffu Cymunedol, penderfynwyd gohirio mynd allan i ymgynghoriad ar y Canllawiau newydd i'r Iaith Gymraeg i roi amser i benodi arbenigwr i weld os oes mwy y galler ei wneud i amddiffyn y Gymraeg, na sydd yn cael ei gynnig yn y Canllawiau presennol. Ond mi fydd canllawiau Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid a Canllawiau Cymysgedd Tai yn dod allan yn fuan.

**Arbedion**

Mae'r cyngor wedi penderfynu newid y drefn o graffu arbedion. Y drefn arferol oedd craffu yr arbedion yn mis Mehefin, ond golygai hyn fyddai angen edrych ar y sefyllfa gwaetha posib. Byddai hyn yn gallu bod yn amser annifyr i staff, a fyddai o bosib yn cael ei effeithio gan unrhyw arbedion arfaethedig. Felly penderfynwyd disgwyl tan mis Hydref, pan fyddai ffigwr mwy cadarn o'r setliad ariannol yn dod gan Llywodraeth Cymru.

**Gwasanaeth Ieuenctid**

Roedd cynnig o flaen y Cyngor llawn yn gofyn i'r Cabinet ail-ystyried ei penderfyniad i gau y Clybiau Ieuenctid ac i beidio talu arian i'r Clybiau Ffermwyr Ifanc a'r Urdd.

Fe cynigwyd gwelliant i'r cynnig sef fod y swyddogion cynnal trafodaethau pellach gyda chymunedau penodol sy'n ansicr am y gwasanaeth newydd, i geisio datrysiad. Mi fydd hyn yn cynnwys trafodaethau pellach hefo'r Cynghorau Cymuned

**Yn lleol**

**Llwybr Amlbwrpas Cwm y Glo**

Y gwaith yn dirwyn i ben. Dwi wedi gofyn am baent coch ar draws y ffordd i ddangos y llefydd croesi, arwydd newydd Cwm y Glo tu allan i Dol Afon yn lle yr un sydd wedi torri yna ar hyn o bryd, ac hefyd bin baw cŵn.

**Llifogydd**

Dal i ddisgwyl diweddariad i'r cynlluniau llifogydd.
Mae cais grant wedi mynd i mewn am y gwaith yn Dol Afon, ond dal i ddisgwyl ymateb gan Llywodraeth Cymru.
Mae gwaith mesur wedi digwydd tu allan i Pant Afon Bach, gan obeithio fydd datrysiad buan.

**Adnewyddu y ffordd a'r palmant trwy Cwm y Glo**

Dwi wedi trio cael dyddiad i'r gwaith, ond hyd yn hyn ddim wedi, mae'r gwaith wedi cael ei brisio, ac fe fydd rhaglen waith yn cael ei benderfynu yn fuan. Cyn gynted ac y byddaf yn gwybod mwy, fe wnaf eich ymwybodau.

**186. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

Nodwyd fod copi o'r adroddiad eisoes wedi ei gylchredeg i'r aelodau.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**187. I dderbyn diweddariad ar elusen 'Llanrug Poor House' (Cyng Goronwy Hughes)**

Adroddodd Y Cynghorydd Goronwy Hughes gefndir yr elusen a'r broses i'w ddwyn i ben. Adroddodd ymhellach bydd yn bosib trosglwyddo'r arian sydd yn yr elusen i'r Cyngor. Gofynnodd am awdurdod y Cyngor i symud ymlaen a'r broses o ddod a'r elusen i ben a throsglwyddo'r arian i'r Cyngor Cymuned.

**Penderfynwyd:** Awdurdodi'r Cynghorydd Goronwy Hughes ynghyd a'r Clerc symud ymlaen i wneud y trefniadau angenrheidiol i ddod a'r elusen i ben ac i drosglwyddo'r arian i'r Cyngor

**188. I ystyried yr opsiynau i bwrcasu diffibriliwr.**

Oherwydd prinder amser, gohiriwyd yr eitem yma

**189. Ceisiadau Cynllunio**

**a) Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C18/0282/23/LL

**Rhif Cyfeirnod Porth Cynllunio:**

**Lleoliad y Safle:** Ty Newydd Afon Rhos, Llanrug, Caernarfon, LL554PT

**Dyddiad Cofrestru:** 09-Ebr 2018

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Estyniad i greu anecs i gynnwys ystafell wely, cegin ac ystafell fyw.

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim Gwrthwynebiad

**b) Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C18/0357/23/LL

**Lleoliad y Safle:** 17, Glan Moelyn, Llanrug, Caernarfon, LL554PG

**Dyddiad Cofrestru:** 01-Mai-2018

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Dymchwel yr adeiladau allanol a chodi estyniad to gwastad yng nghefn yr eiddo.

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim Gwrthwynebiad

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: